| GWEITHDREFN DDISGYBLU I FYFYRWYR | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **I'w weithredu gan:** | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Cyfeirnod Polisi:** | PRAR1112005 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Hydref 2021 | **Rhif Cofnod:** | Cam gweithredu i'r Cadeirydd |
| **Statws:** | Wedi ei gymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | Hydref 2021 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 2 flynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2023 |
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dilëwch fel sy'n briodol) ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol. | | | ✓ |

# Gweithdrefn Ddisgyblu i Fyfyrwyr

## 1. Cwmpas

Dan y Weithdrefn hon, mae gan y Brifysgol bŵer i ddisgyblu myfyrwyr a gwahardd unrhyw fyfyriwr dros dro neu ei ddiarddel am reswm da.

Gweithdrefnau Cysylltiedig:

- Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chamymddwyn academaidd dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
- Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.
- Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag aflonyddu neu fwlio dan y Polisi a'r Weithdrefn Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio: Myfyrwyr, gellir cyfeirio unrhyw honiadau a gynhelir yn erbyn myfyriwr at y Weithdrefn Ddisgyblu i bennu cosb
- Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chamymddwyn rhywiol a thrais dan y Polisi a'r Weithdrefn Camymddygiad Rhywiol a Thrais: Myfyrwyr a Staff, gellir cyfeirio unrhyw honiadau a gynhelir yn erbyn myfyriwr at y Weithdrefn Ddisgyblu i bennu cosb
- Ymdrinnir â chamymddwyn mewn perthynas â materion Undeb y Myfyrwyr dan God Ymddygiad Undeb y Myfyrwyr i aelodau.
- Os yw'n ymddangos bod posibilrwydd bod gan y myfyriwr broblemau iechyd ac y gallai'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio fod yn berthnasol, dylid ceisio cyngor pellach gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu ei enwebai cyn defnyddio'r weithdrefn ddisgyblu.

### 1.1 Myfyrwyr y mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol iddynt

Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i'r canlynol:

- Unrhyw fyfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen astudio israddedig neu ôl-raddedig a gynigir gan Brifysgol Wrecsam;
- Unrhyw fyfyriwr sydd wedi cofrestru ar gyfer modiwl sy'n cynnig credyd ym Mhrifysgol Wrecsam;
- Unrhyw fyfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen nad yw'n cynnig dyfarniad na chredyd ym Mhrifysgol Wrecsam.

### Colegau a Sefydliadau Partner

Os yw myfyriwr yn astudio am ddyfarniad Prifysgol mewn coleg/sefydliad partner, dylid ymdrin â'r mater disgyblu dan weithdrefn y coleg/sefydliad hwnnw. Mewn rhai achosion, e.e. os bydd defnyddio'r weithdrefn yn effeithio ar ddatblygiad y myfyriwr, gallai fod yn briodol ymdrin â myfyriwr dan weithdrefn ddisgyblu y Brifysgol. Dylid ceisio arweiniad gan y Brifysgol pan fydd angen.

Os bydd y Brifysgol yn ymdrin â'r achos, rhoddir cyfleoedd i gynnal y gwrandawiad yn electronig.

Ni fydd myfyriwr yn destun camau disgyblu dan fwy nag un weithdrefn.

1.2 Bydd y weithdrefn yn berthnasol hyd yn oed os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am waharddiad dros dro/datgofrestriad.

1.3 Os bydd myfyriwr yn gwneud cais ysgrifenedig am waharddiad dros dro/datgofrestriad o'r Brifysgol a bod achos disgyblu yn mynd rhagddo, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr1 yn penderfynu a ddylid parhau i ymchwilio i'r honiadau ai peidio. Pwrpas parhau â'r ymchwiliad fyddai sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a datganiadau gan dystion ar gael pe byddai'r myfyriwr yn ceisio ail-gofrestru gyda'r Brifysgol. Ar ôl i'r myfyriwr gael ei wahardd dros dro/ddatgofrestru, bydd yr achos yn cael ei ohirio ac ni threfnir Panel Disgyblu. Fodd bynnag, pe byddai'r myfyriwr yn ceisio ail-gofrestru â'r Brifysgol, bydd Panel Disgyblu yn cyfarfod i bennu a fyddai ail-gofrestru â'r Brifysgol yn briodol, ac unrhyw gosb y dylid ei gosod pe byddai'r myfyriwr yn cael ei ail-dderbyn.

1.4 Bydd myfyriwr yn gyfrifol am ei ymddygiad ei hun ac ymddygiad yr unigolion hynny mae'n eu gwahodd ar safle'r Brifysgol. Felly, bydd gan y Brifysgol hawl i gymryd camau disgyblu yn erbyn myfyriwr am weithred o gamymddwyn a gyflawnwyd gan unigolyn neu unigolion, nad ydynt yn fyfyrwyr yn y Brifysgol, y mae'r myfyriwr wedi'u gwahodd ar safle'r Brifysgol.

## 2. Diffiniad o gamymddwyn

Ystyrir gweithred yn gamymddwyn os yw'n cynnwys amharu'n amhriodol ar weithrediad neu weithgareddau'r Brifysgol, neu ar y rheiny sy'n gweithio neu'n astudio yn y Brifysgol; neu unrhyw weithred sy'n niweidio'r Brifysgol neu ei henw da mewn ffordd arall.

Ystyrir y canlynol yn benodol yn ffurfiau o gamymddwyn, pa un a fyddant yn digwydd ar safle'r Brifysgol neu yn rhywle arall, a gellir eu hystyried dan y Weithdrefn hon, ond nid yw'r rhestr yn un gynhwysfawr:

- unrhyw ymddygiad sy'n cynnwys trosedd;
- methu â datgelu cofnod troseddol a gafwyd cyn neu yn ystod y cyfnod y mae'r myfyriwr wedi'i gofrestru gyda'r Brifysgol;
- tarfu neu amharu'n amhriodol ar weithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon, cymdeithasol neu weithgareddau eraill y Brifysgol;
- rhwystro, neu amharu'n amhriodol ar, swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu aelod o staff y Brifysgol, neu unrhyw ymwelydd â'r Brifysgol;
- ymddygiad neu iaith dreisgar, anweddus, afreolus, bygythiol, brawychus neu ymosodol, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys yn electronig;
- postio deunydd difenwol neu fychanol ar y cyfryngau cymdeithasol;
- twyll, ystryw, dichell neu anonestrwydd mewn perthynas â'r Brifysgol neu ei staff, ei myfyrwyr neu ei hymwelwyr;
- cynhyrchu'n dwyllodrus unrhyw ddogfen yr honnir ei bod wedi cael ei chynhyrchu gan y Brifysgol ac sy'n cynnwys gwybodaeth anghywir, a/neu gyflwyno dogfen o'r fath i drydydd parti;
- dwyn, cymryd yn anonest, neu gamddefnyddio eiddo'r Brifysgol, neu eiddo staff, myfyrwyr neu ymwelwyr â'r Brifysgol, gan gynnwys camddefnyddio cyfrifiaduron;

[1] Drwy gydol y weithdrefn hon, gellir cymryd bod yr holl gyfeiriadau a wneir at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cynnwys cynrychiolydd ar ei ran.

- camddefnyddio safle'r Brifysgol neu ei ddefnyddio heb awdurdod;
- difrodi eiddo'r Brifysgol, neu eiddo staff, myfyrwyr neu ymwelwyr â'r Brifysgol, yn fwriadol neu drwy ddiofalwch;
- gweithred sy'n debygol o achosi anaf neu effeithio ar ddiogelwch ar safle'r Brifysgol;
- meddu ar gyffuriau anghyfreithlon ar safle'r Brifysgol;
- methu â pharchu hawliau eraill o ran rhyddid i gredu a rhyddid i lefaru, gan gynnwys gweithredu'n groes i ofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Rhyddid i Lefaru;
- annog trais a chasineb tuag at unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb;
- torri darpariaethau unrhyw god, polisi, rheol neu reoliad sydd gan y Brifysgol;
- methu â datgelu manylion personol i aelod o staff dan amgylchiadau lle mae'n rhesymol gofyn i wybodaeth o'r fath gael ei rhannu;
- methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol sy'n ymwneud â disgyblaeth, a roddwyd yn unol â'r Weithdrefn hon.
- methu â chydymffurfio â chosb a osodwyd dan y weithdrefn hon;
- unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i ganllawiau'r Llywodraeth a/neu Gytundeb Cyfrifoldeb Cymunedol y Brifysgol sy'n ymwneud â'r pandemig Covid-19.
- unrhyw ymddygiad arall y gellir ei ystyried yn ffurf o gamymddwyn neu ymddygiad amhroffesiynol.

## 3. Honiad o gamymddwyn

3.1 Dylid gwneud honiad o gamymddwyn fel yr ystyrir yn briodol i'r unigolyn awdurdodedig perthnasol, yn dibynnu ar natur y camymddwyn. Gellir hefyd gwneud honiad o gamymddwyn yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

3.2 Dylid gwneud honiad o gamymddwyn yn ysgrifenedig ac yn brydlon, a dylai gynnwys y wybodaeth ganlynol: enw'r unigolyn/unigolion y gwneir yr honiad yn ei erbyn; natur y camymddwyn; amser a lleoliad; manylion unrhyw dystion; manylion unrhyw gamau sydd eisoes wedi'u cymryd. Dylid nodi natur y camymddwyn yn glir ac yn ffeithiol.

3.3 Os bydd honiad o gamymddwyn yn cael ei adrodd, ac mae'n cynnwys trosedd bosibl, dylid cynghori'r dioddefwr i ddwyn y mater hwn i sylw'r heddlu. Er diogelwch cymuned y Brifysgol, efallai y bydd y Brifysgol yn cyfeirio trosedd honedig i'r heddlu yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr. Bydd yr Is-ganghellor (neu ei ddirprwy enwebedig) yn gwneud y penderfyniad hwn yn dilyn ymgynghori perthnasol.

Mae dwy lefel ar gyfer ystyried honiadau o gamymddwyn:

Cam 1 Datrysiad Lleol

Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o adroddiadau o fân gamymddwyn ar lefel leol gan Unigolyn Awdurdodedig a all ymchwilio i'r amgylchiadau a adroddwyd a phenderfynu ar y cam gweithredu priodol i'w gymryd.

Cam 2 Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol

Os nad yw'n briodol ymdrin â honiad dan y weithdrefn datrysiad lleol, neu os penderfynwyd peidio â gwneud hynny, bydd yr honiad o gamymddwyn yn cael ei drosglwyddo i ddwylo'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a fydd yn pennu'r camau gweithredu priodol.

## 4. Gwaharddiad Dros Dro

4.1. Gall yr unigolyn awdurdodedig perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr argymell i aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor y dylid gwahardd myfyriwr y gwnaed honiad o gamymddwyn yn ei erbyn dros dro o'r Brifysgol **am gyfnod o hyd at 28 diwrnod**, tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r honiad. Bydd yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor yn penderfynu a ddylid gwahardd y myfyriwr dros dro ac am ba hyd. Cytunir ar waharddiad o'r fath dim ond dan amgylchiadau eithriadol, i ddiogelu aelod neu aelodau o gymuned y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys diogelu rhag niwed personol, neu ddifrod i eiddo aelod neu aelodau o gymuned y Brifysgol neu enw da'r Brifysgol. Gellir gwneud penderfyniad ynghylch gwaharddiad dros dro ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod ymchwilio, wrth i dystiolaeth newydd gael ei chasglu.

4.2. Dylid dehongli gwaharddiad fel arfer fel ataliad rhag ymwneud â gwasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol. Fodd bynnag, efallai y bydd amod yn gysylltiedig â gwaharddiad dros dro, megis caniatâd i sefyll arholiad. Dylid nodi'r rhesymau dros y gwaharddiad dros dro a'r telerau yn ysgrifenedig i'r myfyriwr. Gall gorchymyn gwahardd dros dro gynnwys gofyniad i'r myfyriwr beidio â chysylltu ag unigolyn neu unigolion a enwir.

4.3. Dan rhai amgylchiadau, yn ôl disgresiwn yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor, os yw'r myfyriwr wedi cofrestru ar raglen broffesiynol sy'n cynnwys ymarfer proffesiynol, efallai y bydd y myfyriwr yn cael parhau i gymryd rhan mewn darlithoedd ac astudiaeth academaidd, ond yn cael ei wahardd rhag cymryd rhan mewn ymarfer proffesiynol.

4.4. Dan rhai amgylchiadau, gall gwaharddiad dros dro gynnwys atal rhag aros mewn llety preswyl sy'n eiddo i'r Brifysgol neu sy'n cael ei reoli ganddi. Cymerir y cam hwn dim ond gan ystyried y broses gyfreithiol briodol2. Gall yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor wahardd dros dro y myfyriwr o lety preswyl, os bydd y contract llety sydd ar waith yn caniatáu hynny.

4.5. Fel rheol, ni fydd myfyriwr sydd wedi cael ei wahardd yn gymwys i gael ad-daliad ffioedd dysgu am gyfnod y gwaharddiad.

4.6. Pan fydd myfyriwr yn cael ei wahardd dros dro yn unol â'r paragraff hwn yn y weithdrefn, bydd yr honiad yn cael ei ystyried dan y weithdrefn ddisgyblu lawn, nid y weithdrefn Cam Un.

4.7. Mae gan y myfyriwr hawl i wneud sylwadau, gan gynnwys sylwadau llafar, yn erbyn penderfyniad y dylai gael ei wahardd dros dro (gan gynnwys unrhyw waharddiad o lety

[2] Mae paragraffau 34.1 a 34.2 y Telerau ac Amodau Preswylio yn berthnasol.

preswyl) i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, a fydd yn cyfeirio'r mater i gael ei ystyried gan aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor, nad yw wedi ymwneud â'r mater yn flaenorol. Wrth gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, mae gan y myfyriwr hawl i gael cwmni ffrind, aelod o staff neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, os yw'n cyflwyno'r sylwadau wyneb yn wyneb.

4.8. Os na fydd y weithdrefn ddisgyblu yn cael ei chwblhau cyn diwedd cyfnod gwahardd o 28 diwrnod, bydd yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor yn penderfynu a ddylai'r cyfnod gwahardd barhau, a rhoddir gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw.

## 5. Achosion asiantaethau allanol

5.1 Os bydd camymddwyn yn cael ei ddwyn i sylw'r heddlu neu asiantaeth statudol allanol (ESA) arall, fel rheol, ni chymerir unrhyw gamau pellach nes ceir canlyniad unrhyw achos gan yr heddlu, y llys neu asiantaeth allanol arall, heblaw y gellid gwahardd y myfyriwr dros dro dan delerau adran 5. Fodd bynnag, os ellir sicrhau na fydd hyn yn effeithio ar unrhyw ymchwiliad allanol, gellir parhau i ymchwilio i'r achos er mwyn pennu a oes agen gwahardd myfyriwr dros dro ac er mwyn sicrhau bod datganiadau'n cael eu casglu tra bod digwyddiadau'n parhau'n glir yn y cof. Os bernir bod angen parhau â'r ymchwiliad, cysylltir â'r heddlu, y llys neu asiantaeth allanol ymlaen llaw i osgoi cyfaddawdu eu hymholiadau.

5.2 Pennir unrhyw gyfnod gwahardd dros dro tra bod achos allanol yn mynd rhagddo gan aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor, ac ystyrir y cyfnod tebygol y bydd ei angen ar yr ESA i gwblhau ei achos. Fel canllaw, bydd aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor fel arfer yn pennu y bydd y cyfnod gwahardd dros dro yr un fath â'r cyfnod sydd ei angen ar yr ESA i gwblhau ei achos ac i hysbysu'r myfyriwr o'r canlyniad. Gofynnir i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth o'r canlyniad i'r Brifysgol, a bydd y cyfnod gwahardd yn parhau nes bod y dystiolaeth hon yn cael ei chyflwyno.

5.3 Pan fydd canlyniad achos yr ESA yn hysbys, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyriwr yn pennu a ddylid cymryd neu barhau â chamau disgyblu mewnol, gan ystyried penderfyniad yr ESA.

5.4 Os bydd myfyriwr yn cael ei euogfarnu o drosedd ac yn derbyn dedfryd o garchar yn ystod cyfnod o astudio, gellir atal astudiaethau dros dro nes bod y myfyriwr yn cael ei ryddhau, a bydd y mater yn cael ei ystyried dan y Weithdrefn Ddisgyblu bryd hynny. Dylid ceisio cyngor gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn y lle cyntaf, a chyn cymryd unrhyw gamau. Efallai na fydd yn briodol gwneud hyn os yw hyd y dedfryd o garchar yn sylweddol.

## GWEITHDREFN CAM UN (adrannau 7 ac 8)

5.5 Unigolion awdurdodedig

Mae gan yr aelodau staff canlynol awdurdod i ddelio â materion camymddwyn o fewn eu maes cyfrifoldeb dan y weithdrefn Cam Un (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel unigolion awdurdodedig):

Deoniaid Cyfadrannau

Deoniaid Cyswllt Cyfadrannau neu staff sydd â statws priodol, a enwebwyd gan Ddeoniaid

Pennaeth Ystadau a Rheoli Campws

Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Rheolwr Bywyd Preswyl a Champws

Rheolwr Arweiniad a Chyngor i Fyfyrwyr

5.6 Mae gan yr aelodau staff a nodir awdurdod i ddelio â materion camymddwyn o fewn eu maes cyfrifoldeb dan y weithdrefn Cam Un, os ystyrir y byddai un neu fwy o'r cosbau canlynol yn briodol:

- rhybudd ffurfiol ar lafar;
- rhybudd ysgrifenedig;
- rhybudd ysgrifenedig terfynol i fyfyriwr sydd eisoes wedi cael rhybudd, neu os yw'r Panel o'r farn bod y camymddwyn yn haeddu rhybudd ysgrifenedig terfynol, a hysbysiad o'r camau disgyblu i'w cymryd os bydd y myfyriwr yn camymddwyn ymhellach;
- y myfyriwr yn gorfod ymddiheuro yn bersonol (ym mhresenoldeb hwylusydd) neu'n ysgrifenedig;
- y myfyriwr yn gorfod llunio traethawd myfyriol i'w gyflwyno i'r unigolyn awdurdodedig o fewn cyfnod penodol;
- y myfyriwr yn gorfod cymryd rhan mewn dosbarthiadau ymwybyddiaeth a darparu tystiolaeth o bresenoldeb
- nifer penodol o oriau o wasanaeth yn y gymuned i'r Brifysgol;
- iawndal hyd at y gost uniongyrchol a achoswyd gan y camymddwyn, ond ddim y tu hwnt iddi, neu lefel a bennir gan y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd[3], pa bynnag un sydd isaf;
- atafaelu a chadw eitemau am gyfnod penodol, ar yr amod bod y gosb yn rhesymol ac yn gymesur;
- dirwy hyd at lefel a bennir gan y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd[4];
- gwahardd rhag defnyddio gwasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol, neu rhag defnyddio cyfleusterau penodol.
- os yw'r myfyriwr wedi cael ei wahardd dros dro (dan baragraff 5 uchod);
- lle allai canlyniad y weithdrefn ddisgyblu fod yn ddiarddel o breswylfeydd y Brifysgol; gwahardd dros dro; gwahardd; neu ddiarddel o'r Brifysgol;
- os yw'n bosib y bydd angen rhoi gwybod i'r corff proffesiynol a statudol perthnasol a/neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am ganlyniad y weithdrefn ddisgyblu
- os yw'r unigolyn awdurdodedig neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn credu na fyddai'n briodol dilyn y weithdrefn Cam Un.

[3] £250.
[4] £250

5.7 Bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol pan ystyrir honiad o gamymddwyn dan y weithdrefn Cam Un:

- Bydd yr unigolyn awdurdodedig neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penderfynu a oes achos i'w ateb ai peidio;
- Gofynnir i'r myfyriwr fynychu cyfweliad, yn nodi'r honiad o gamymddwyn dan y Weithdrefn Ddisgyblu a sut yr ystyrir bod ei ymddygiad wedi torri'r safonau disgwyliedig. Dylid rhoi unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael i'r myfyriwr;
- Rhoddir y dewis i'r myfyriwr gyflwyno ei achos yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r iaith a ddewisir.
- Bydd y myfyriwr yn cael amser digonol, a **dim llai na deuddydd**, i baratoi ar gyfer ateb yr honiad;
- Dylid hysbysu'r myfyriwr o'i hawl i gael cwmni ffrind, aelod o staff neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr. Dan rai amgylchiadau, bydd yn briodol caniatáu i fyfyriwr gael cwmni gofalwr a/neu gyfieithydd (e.e. ar gyfer iaith arwyddion);
- Rhoddir cyfle i'r myfyriwr wneud cais am unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen er mwyn iddo gymryd rhan yn y weithdrefn;
- Ni chaniateir cynrychiolaeth gyfreithiol os dilynir y weithdrefn Cam Un.
- Bydd ail aelod o staff yn bresennol yn y cyfweliad fel tyst o'r hyn sy'n digwydd, gall hwn fod yn Swyddog Achos o'r adran Cynllunio Myfyrwyr a Gweinyddiaeth Myfyrwyr;
- Bydd yr aelod staff awdurdodedig yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig fel y mae'n ystyried yn briodol, gan gynnwys sylwadau gan y myfyriwr y gwnaed yr honiad yn ei erbyn a chan unrhyw unigolyn arall os yw'n briodol i'r achos;
- Bydd yr aelod staff awdurdodedig yn pennu bod y myfyriwr yn euog, dim ond os bydd yn fodlon ar sail pwysau tebygolrwydd;
- Gellir gosod un neu fwy o'r cosbau a nodir yn adran 7.1.

5.8 Wrth bennu'r gosb, bydd yn rhaid i'r aelod staff awdurdodedig ystyried canlyniad unrhyw achos gan ESA, ac a fyddai'n briodol ai peidio i'r Brifysgol osod cosb ychwanegol.

5.9 Ar ôl y cyfweliad, bydd yr aelod staff awdurdodedig yn llunio adroddiad byr yn cynnwys yr honiad o gamymddwyn, crynodeb byr o'r dystiolaeth a dderbyniwyd, y seiliau ar gyfer y canlyniad (euog neu ddieuog) neu ganfod na brofwyd yr honiad, y gosb a osodwyd (os o gwbl), a'r ffactorau a ystyriwyd wrth bennu unrhyw gosb.

5.10 Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at y myfyriwr (os yw hynny'n briodol) **cyn pen pum diwrnod gwaith**, a bydd hefyd yn cael ei anfon at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr er mwyn ei ychwanegu at gofnod y myfyriwr.

## 6. Proses Apelio yn dilyn Gweithdrefn Cam Un

6.1 Gall y myfyriwr apelio yn erbyn dyfarniad euog, y gosb a osodwyd neu'r ddau. Dylid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr **cyn pen deg diwrnod gwaith** o hysbysu'r myfyriwr yn ffurfiol yn ysgrifenedig o ganlyniad y weithdrefn Cam Un. Gellir gwneud apêl ar y seiliau canlynol:

- mae tystiolaeth newydd, berthnasol ar gael, na chafodd ei dwyn at sylw'r unigolyn awdurdodedig am reswm da, ac mae'r myfyriwr yn credu bod y dystiolaeth honno'n berthnasol i'r materion dan sylw;
- roedd anghysondeb o bwys o fewn y weithdrefn Cam Un;
- roedd y penderfyniad a gyrhaeddwyd yn afresymol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael;
- roedd y gosb yn anghymesur dan yr amgylchiadau;
- mewn perthynas ag apêl yn erbyn cosb a osodwyd, y mae amgylchiadau lliniarol yn bodoli, na chafodd eu dwyn at sylw'r unigolyn awdurdodedig am reswm da.

6.2 Os cyflwynir apêl yn seiliedig ar dystiolaeth newydd nad oedd ar gael yn ystod y weithdrefn Cam Un am resymau da, gall y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ofyn i'r unigolyn awdurdodedig ailystyried yr achos.

6.3 Oni bai fod yr achos yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r unigolyn awdurdodedig, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn galw panel i ystyried yr apêl. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys:

- Deon Cyfadran neu aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor (Cadeirydd);
- Un aelod arall o staff academaidd neu weithredol y mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ystyried ei fod yn briodol;
- Llywydd yr Undeb Myfyrwyr neu ei enwebai, a fydd yn aelod o weithrediaeth yr Undeb Myfyrwyr.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r Panel Apêl fod wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu ei enwebai yn bresennol er mwyn darparu arweiniad rheoleiddiol, a bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer y Panel Apêl.

6.4 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon yr holl ddogfennaeth a fydd yn cael ei hystyried gan y Panel Apêl at y myfyriwr **o leiaf pum diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad.

6.5 Rhoddir y dewis i'r myfyriwr gyflwyno ei achos yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r iaith a ddewisir.

6.6 Mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni fel cefnogaeth yn y gwrandawiad gan fyfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, cynghorydd o Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn arall sydd ei angen ar y myfyriwr i'w gefnogi gydag anghenion unigol e.e. gofalwr neu gyfieithydd. Fodd bynnag, ni chaiff yr unigolyn hwnnw siarad ar ran y myfyriwr oni bai fod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd clir. Os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cwmni gan unigolyn, mae'n rhaid iddo rannu enw'r unigolyn hwn gyda'r Ysgrifennydd cyn y gwrandawiad. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, amser, lleoliad a dogfennaeth briodol yn cael eu rhannu â'r unigolyn fydd yn gwmni iddo. Mae gan y myfyriwr hawl i geisio cymorth gan adrannau perthnasol Bywyd Myfyrwyr a Champws wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

Dylid nodi na fydd unrhyw unigolyn yn cael bod yn gwmni i'r myfyriwr os ellir profi y gallai'r unigolyn hwnnw elwa'n bersonol drwy fod yn bresennol e.e. myfyriwr sy'n destun tor-amod tebyg o weithdrefnau'r Brifysgol.

6.7 Fel rheol, ni chaniateir cynrychiolaeth gyfreithiol dan y weithdrefn Cam Un. Er hyn, gellir ei chaniatáu os ellir dangos y gallai'r gosb a osodir arwain at oblygiadau difrifol

i’r myfyriwr o ran ei ddatblygiad academaidd posibl yn y dyfodol neu’r yrfa mae’n ei dewis.

6.8 Os bydd myfyriwr yn dweud y bydd yn bresennol mewn gwrandawiad, ond ddim yn ei fynychu wedi hynny, ac nid yw’n darparu rheswm nac ymddiheuriad, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb. Os rhoddir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohiriad ai peidio.

Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais i ohirio gwrandawiad, gwneir cais am dystiolaeth liniarol, ac fe’i cyflwynir i’r Cadeirydd am gymeradwyaeth. Os ceir cymeradwyaeth gan y Cadeirydd, rhoddir caniatâd i ohirio, ond bydd hynny unwaith yn unig.

Os bydd myfyriwr yn dweud na fydd yn bresennol yn y gwrandawiad, neu os na cheir ateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb.

6.9 Ni fydd gan y myfyriwr yr hawl i ofyn am ail-wrandawiad o'r achos, dim ond dan amgylchiadau eithriadol y caniateir hyn.

6.10 Gall y Panel Apêl wrthdroi canfyddiad o ganlyniad i dystiolaeth newydd; neu os credir na chafod y gwrandawiad gwreiddiol ei gynnal yn deg; neu os credir bod y dyfarniad euog yn afresymol o ystyried canfyddiadau ffeithiol.

6.11 Gall y Panel Apêl osod cosb fwy neu lai, ar ôl ystyried a oedd y gosb wreiddiol yn deg a rhesymol o ystyried holl amgylchiadau’r achos, modd y myfyriwr a’i amgylchiadau cyffredinol.

**GWEITHDREFN DDISGYBLU FFURFIOL CAM DAU ADRANNAU 9 A 10**

6.12 Os nad yw'n briodol ymdrin â honiad dan y weithdrefn Cam Un, neu os penderfynwyd peidio â gwneud hynny, bydd yr honiad o gamymddwyn yn cael ei drosglwyddo i ddwylo'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Gellir cyfeirio honiad o gamymddwyn yn uniongyrchol at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

6.13 Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penderfynu:

- a yw'r honiad yn ansylweddol ac a ddylid ei ddiystyru;
- a yw'r honiad yn flinderus ac a ddylid ei ddiystyru;
- a ddylid cyfeirio'r honiad i ymdrin â hi drwy'r weithdrefn Cam Un (os nad yw wedi cael ei chyfeirio drwy'r llwybr hwnnw eisoes);
- a ddylid cyfeirio'r honiad am ystyriaeth dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, y Polisi a'r Weithdrefn Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio: Myfyrwyr, neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio;
- a oes achos prima facie dros barhau â'r weithdrefn ddisgyblu ffurfiol.

6.14 Os penderfynir parhau â'r weithdrefn ddisgyblu ffurfiol, bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai) yn penodi aelod o staff academaidd neu staff gweithredol (Swyddog Ymchwilio) i ymchwilio i'r achos a chyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr yng ngwrandawiad y Panel. Gall y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr benderfynu ymgymryd â'r rôl hon yn bersonol.

Pan mae achos wedi'i gyfeirio gan weithdrefn arall, e.e. Gwrth-aflonyddu a Gwrth-fwlio neu Gamymddwyn Rhywiol a Thrais, bydd unrhyw ymchwiliad a wneir yn cael ei gyfeirio at y Panel Disgyblu heb fod angen ymchwilio ymhellach.

6.15 Gwneir pob ymdrech i ddiogelu sefyllfa academaidd y myfyriwr wrth aros am ganlyniad gwrandawiad y Panel Disgyblu

6.16 Gall y Swyddog Ymchwilio gynnal ymchwiliad i'r honiad, a dylai geisio cwblhau'r ymchwiliad **cyn pen 15 diwrnod gwaith** o'i benodiad fel Swyddog Ymchwilio. Os nad yw'r cyfnod hwn yn ymarferol, dylai'r Swyddog Ymchwilio, os yw'r rôl yn cael ei chyflawni gan rywun arall heblaw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, a fydd yn rhannu cynnydd yr ymchwiliad gyda'r myfyriwr a'r unigolyn sydd wedi gwneud yr honiad.

6.17 Os yw'r drosedd yn fater troseddol sy'n cynnwys yr heddlu, y llys neu asiantaeth allanol arall, ni all ymchwiliad y Brifysgol fynd ymhellach nag asesiad risg i bennu a oes angen gwahardd yr unigolyn dros dro wrth aros am ganlyniad achos yr ESA. Ni fydd y Brifysgol yn parhau â'r ymchwiliad heb gysylltu â'r ESA perthnasol yn gyntaf (gweler paragraff 6.1 ar gyfer hyn). Er hyn, bydd y myfyriwr yn cael gwybod bod gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol yn cael ei defnyddio a bydd hefyd yn cael copi ohoni, ond efallai y bydd ymchwiliad llawn y Brifysgol yn cael ei ohirio nes bod canlyniad yr ymchwiliad swyddogol gan yr ESA yn hysbys.

6.18 <u>Yr Ymchwiliad</u>

6.18.1 Bydd y Swyddog Ymchwilio a benodwyd i gyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr yn ceisio sefydlu'r ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r honiadau o gamymddwyn yn brydlon, cyn i atgofion ddechrau pylu. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ceisio cyfweld, ac os oes angen, ail-gyfweld pawb y mae'n credu, ar sail resymol, sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'r honiadau o gamymddwyn. Bydd y

Swyddog Ymchwilio yn cyfweld y myfyriwr y gwnaed yr honiad yn ei erbyn. Mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni fel cefnogaeth gan fyfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, cynghorydd o Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn arall sydd ei angen ar y myfyriwr i'w gefnogi gydag anghenion unigol e.e. gofalwr neu gyfieithydd.

6.18.2 Pryd bynnag sy'n bosibl, dylai'r Swyddog Ymchwilio gyfweld pob darpar dyst a'r myfyriwr ym mhresenoldeb unigolyn annibynnol. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn gyfrifol am gymryd nodiadau manwl yn ystod y cyfweliad, a thrawsgrifio'r nodiadau hynny i greu datganiad, a bydd y tyst yn cael cyfle i ddarllen y datganiad cyn ei lofnodi, er mwyn ei sicrhau nad yw'n cael ei gamgyfleu yn y datganiad. Os nad yw tyst neu'r myfyriwr sy'n destun yr achos disgyblu yn gallu cwrdd â'r Swyddog Ymchwilio am reswm da, cyn pen y cyfnod rhesymol, caiff y tyst neu'r myfyriwr gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Ymchwilio, a fydd yn gallu cyfeirio at y datganiad yn ei adroddiad.

6.18.3 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn paratoi adroddiad sy'n manylu'r honiadau yn erbyn y myfyriwr gan gyfeirio at y Weithdrefn hon ac amlinellu'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad, a bydd copi yn cael ei ddanfon i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Bydd yr adroddiad yn cynnwys copïau o ddatganiadau tystion (neu amlinelliad o dystiolaeth gan dyst dan rai amgylchiadau) a thystiolaeth ddogfennol arall. Darperir yr adroddiad i'r myfyriwr fel rhan o'r ddogfennaeth fydd yn cael ei hystyried gan y Panel.

6.18.4 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cael trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac yn penderfynu ar un o'r canlyniadau canlynol:

(i) Y dylai'r achos fynd rhagddo i gael ei ystyried gan Banel yn unol â pharagraff 9.8 isod;

(ii) Pan fydd y myfyriwr wedi cyfaddef ei fod yn euog o'r tramgwydd, bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a fydd yn gosod cosb briodol. Fodd bynnag, os pennir mai gwaharddiad neu ddiarddeliad fyddai'r gosb briodol, parheir i ymdrin â'r mater yn unol â (i) uchod;

(iii) Nad oes achos prima facie wedi ei sefydlu gan y ffeithiau a gasglwyd, ac y dylid diystyru'r achos. Ni fydd y canlyniad hwn yn cael ei weithredu heb gytundeb y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

6.18.5 Os bydd yr achos yn cael ei ystyried gan Banel, bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu pa unigolion a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwiliad fydd angen bod yn bresennol yn y Gwrandawiad Disgyblu fel tystion i gynorthwyo i gyflwyno tystiolaeth. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn hysbysu'r tystion hynny fel sy'n briodol, ac yn hysbysu Ysgrifennydd y Panel.

6.18.6 Os ymdrinnir â'r mater yn unol â (ii) yn 9.7.4 uchod, ac mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr wedi pennu'r gosb, bydd gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y gosb a osodwyd ar y seiliau canlynol yn unig:

- Bod y gosb yn anghymesur dan yr amgylchiadau;
- Mae amgylchiadau esgusodol yn bodoli, na chafodd eu dwyn i sylw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn flaenorol, am reswm da.

Os sefydlir sail dros apelio, ymdrinnir â'r apêl yn unol â'r broses a fanylir ym mharagraff 10 isod.

6.19 Ffurfio Panel Disgyblu

6.19.1 Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer y Panel Disgyblu a fydd yn gyfrifol am alw Panel Disgyblu ynghyd. Bydd y Panel hwnnw'n cynnwys:

- Cadeirydd (o'r gronfa o Gadeiryddion Paneli a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd, o Adran nad yw'r myfyriwr yn astudio ynddi);
- Un aelod arall o staff academaidd neu weithredol y mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ystyried ei fod yn briodol;
- Llywydd yr Undeb Myfyrwyr neu ei enwebai, a fydd yn aelod o Weithrediaeth yr Undeb Myfyrwyr.

Gall y Cadeirydd ddewis penodi aelodau ychwanegol i'r Panel, hyd at gyfanswm o bum aelod, neu benodi ymgynghorwyr arbenigol i'r Panel. Caiff un aelod o'r Panel, a'r ymgynghorwyr arbenigol, ddod o du allan i'r Brifysgol.

- Ni ddylai unrhyw aelod o'r Panel fod wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol.
- Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, neu ei enwebai, yn bresennol er mwyn darparu arweiniad rheoleiddiol. Ni fydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn gweithredu yn y capasiti hwn os ydynt yn gweithredu fel Swyddog Ymchwilio.

6.19.2 Os bydd dau fyfyriwr, neu ragor, yn cael eu cyhuddo o dramgwyddau cysylltiedig, mae'n debygol y bydd yn ddefnyddiol ymdrin â'u hachosion gyda'i gilydd, ond rhaid rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddadlau y dylid gwrando ar yr achosion ar wahân.

6.19.3 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon hysbysiad at y myfyriwr yn nodi dyddiad y gwrandawiad disgyblu, **10 diwrnod gwaith** ymlaen llaw. Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn hysbysu tystion y Swyddog Ymchwilio o ddyddiad y gwrandawiad disgyblu.

Rhoddir y dewis i'r myfyriwr gyflwyno ei achos yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r iaith a ddewisir.

6.19.4 Mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni fel cefnogaeth yn y gwrandawiad gan fyfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, cynghorydd o Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn arall sydd ei angen ar y myfyriwr i'w gefnogi gydag anghenion unigol e.e. gofalwr neu gyfieithydd. Fodd bynnag, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu mewn capasiti cyfreithiol, ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr oni bai bod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd clir, ac oni bai bod rhybudd ymlaen llaw wedi'i roi yn nodi y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod ynghylch cynrychiolaeth corff proffesiynol neu gyfreithiol gymwys). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cwmni, mae'n rhaid iddo rannu enw'r unigolyn hwn gyda'r Ysgrifennydd cyn y gwrandawiad, a nodi a oes gan yr unigolyn hwnnw gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, amser, lleoliad a dogfennaeth briodol yn cael eu rhannu â'r unigolyn fydd yn gwmni iddo.

Mae gan y myfyriwr hawl i geisio cymorth gan adrannau perthnasol Bywyd Myfyrwyr a Champws wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

Gall myfyrwyr ofyn am gael cwmni mewn gwrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir mai dan rai amgylchiadau, gall y myfyriwr ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod ymchwilio neu wrandawiad panel. Dan rai amgylchiadau, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig **o leiaf 5 diwrnod gwaith** cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai).

6.19.5 Os caniateir y cais, mae gan y Brifysgol yr hawl i gael ei chynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun ac yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r dogfennau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rheini sy'n mynychu gyda nhw.

Os bydd myfyriwr yn dweud y bydd yn bresennol mewn gwrandawiad, ond ddim yn ei fynychu wedi hynny, ac nid yw'n darparu rheswm nac ymddiheuriad, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb. Os rhoddir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohiriad ai peidio.

Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais i ohirio gwrandawiad, gwneir cais am dystiolaeth liniarol, ac fe'i cyflwynir i'r Cadeirydd am gymeradwyaeth. Os ceir cymeradwyaeth gan y Cadeirydd, rhoddir caniatâd i ohirio, ond bydd hynny unwaith yn unig.

Os bydd myfyriwr yn dweud na fydd yn bresennol yn y gwrandawiad, neu os na cheir ateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb.

6.19.6 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon adroddiad y Swyddog Ymchwilio a'r holl ddogfennaeth arall a fydd yn cael ei hystyried gan y Panel at y myfyriwr **o leiaf saith diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad.

6.19.7 Bydd gan y myfyriwr hawl i gyflwyno datganiad i'w ystyried gan y Panel. Dylid ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr **o leiaf tri diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad. Fel eithriad, efallai y bydd Cadeirydd y Panel yn cytuno i dderbyn datganiad yn ddiweddarach.

6.19.8 Os yw'r myfyriwr yn dymuno galw ar dystion i fod yn bresennol yn y Panel, dylai hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr **o leiaf tri diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad. Os yw myfyriwr yn dymuno galw ar dystion, mae'n rhaid iddo restru enwau'r unigolion hynny. Bydd Cadeirydd y Panel yn penderfynu a fyddai'n berthnasol i'r tystion fod yn bresennol. Cyfrifoldeb y myfyriwr fydd hysbysu'r tystion am fanylion y gwrandawiad.

6.19.9 Os na fydd tyst ar gyfer y naill barti neu'r llall yn gallu bod yn bresennol yn y gwrandawiad disgyblu am reswm da, gall y Panel, dan amgylchiadau eithriadol, gytuno i ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig y tyst absennol, os yw'r Panel yn credu bod hynny er budd cyfiawnder naturiol. Cyn cytuno i wneud hynny, efallai y bydd angen i'r Panel gymryd toriad i ystyried a ddylai wneud hynny.

6.20 Fel eithriad, gall Cadeirydd y Panel ganiatáu i dyst gyflwyno tystiolaeth yn ddienw. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y tyst yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig.

6.21 <u>Y Gwrandawiad Disgyblu</u>

Cynhelir y gwrandawiad disgyblu yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

6.21.1 Ar ddechrau'r gwrandawiad, cyflwynir yr holl unigolion sy'n bresennol a cheir disgrifiad cryno o'u rôl yn yr achos.

6.21.2 Rhoddir disgrifiad o'r weithdrefn amlinellol ar gyfer y gwrandawiad, yn cynnwys datganiad clir o ddiben y gwrandawiad, y canlyniadau posibl a'r ffordd y rhennir y canlyniad gyda'r partïon dan sylw.

6.21.3 Bydd y myfyriwr a'i gynrychiolydd, neu'r unigolyn sy'n gwmni iddo yn bresennol drwy gydol y gwrandawiad nes bod y Panel yn dechrau trafod.

6.21.4 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno'r achos o gamymddwyn honedig i'r Panel ym mhresenoldeb y myfyriwr a'i gynrychiolydd neu'r unigolyn sy'n gwmni iddo, oni bai y cytunwyd dan delerau 9.7.5 y dylai'r gwrandawiad barhau yn absenoldeb y myfyriwr.

6.21.5 Caiff yr unigolyn sy'n gwmni i'r myfyriwr fod yn gynrychiolydd iddo a chaiff ymateb ar ran y myfyriwr gyda chaniatâd clir gan y Cadeirydd (gweler paragraff 9.8.4 uchod).

6.21.6 Rhoddir cyfle i'r myfyriwr, neu ei gynrychiolydd, roi cyfrif o'r digwyddiad ac unrhyw wybodaeth neu eglurhad arall y mae'n dymuno i'r Panel ei ystyried.

6.21.7 Gall y Panel wahodd y Swyddog Ymchwilio i alw ar dystion, neu gall y Panel ddewis ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ei hun.

6.21.8 Bydd aelodau'r Panel yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio, i'r tystion ac i'r myfyriwr.

6.21.9 Bydd y myfyriwr neu ei gynrychiolydd yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio, i'r tystion ac i'r Panel, a galw ar ei dystion ei hun. Bydd gan y Cadeirydd awdurdod i ofyn i'r myfyriwr dynnu unrhyw gwestiwn mae'n ei ystyried yn amherthnasol i'r achos yn ei ôl.

6.21.10 Bydd y tystion yn bresennol yn y gwrandawiad fel arfer dim ond i gyflwyno eu tystiolaeth eu hunain ac i ateb cwestiynau. Fel arfer, bydd tystion yn gadael y gwrandawiad ar ôl rhoi tystiolaeth, ond efallai y cânt eu galw yn ôl.

6.21.11 Efallai y gelwir ar diwtor personol neu gwnselydd y myfyriwr, os gwahoddwyd nhw ac os ydynt yn bresennol, i gyflwyno datganiad i'r Panel.

6.21.12 Bydd y myfyriwr, neu ei gynrychiolydd, yn cael cyfle i ymateb i'r wybodaeth a ddarperir ac i gyflwyno datganiad byr ar ddiwedd yr achos.

6.21.13 Bydd gan y Panel ddisgresiwn i ohirio'r gwrandawiad am reswm da, er enghraifft, i geisio rhagor o wybodaeth neu oherwydd bod tyst yn absennol oherwydd salwch. Mae gan y myfyriwr hawl i ofyn am ohiriad, gan ddarparu eu rheswm dros ofyn; mae gan y Panel hawl i wrthod y cais heb orfod rhoi rheswm.

6.21.14 Rhaid i'r Swyddog Ymchwilio, y myfyriwr a'i gynrychiolydd, a thiwtor personol neu gwnselydd y myfyriwr adael y gwrandawiad pan fydd y Panel yn dechrau trafod.

6.21.15 Bydd y Panel yn trafod yn breifat, gan alw ar y Swyddog Ymchwilio a'r myfyriwr (a'i gynrychiolydd neu'r unigolyn sy'n gwmni iddo) dim ond i egluro pwyntiau amhendant ynglŷn â ffeithiau a roddwyd eisoes. Os bydd angen galw rhywun yn ei ôl, bydd y ddau barti yn dychwelyd er mai dim ond un, efallai, sydd ei angen i egluro'r pwynt dan sylw.

6.21.16 Gellir gofyn i unrhyw ymgynghorwyr proffesiynol a benodwyd gan y Panel (a benodwyd yn ychwanegol i aelodau'r Panel) fod yn bresennol tra mae'r Panel yn trafod yn breifat, ond dim ond i'r graddau y gellid bod angen galw arnynt i ddarparu cyngor arbenigol pellach ar gais y Panel.

6.21.17 Os yw'r myfyriwr eisoes wedi bod yn destun y Weithdrefn Ddisgyblu, rhennir manylion y canlyniad blaenorol gydag aelodau'r panel ar ôl gwneud penderfyniad terfynol, cadarnhau'r honiadau, ac mae aelodau'r panel yn barod i osod cosbau. Drwy rannu canlyniadau blaenorol, gellir ystyried effaith gynyddol ymddygiadau sy'n cael eu hailadrodd, pan fydd ymddygiadau o'r fath yn berthnasol i'r achos dan sylw.

6.22 Y Canfyddiad

6.22.1 Bydd y Panel yn pennu bod myfyriwr yn euog o gamymddwyn dim ond os yw'n fodlon, ar sail y dystiolaeth sydd o'i flaen, bod y myfyriwr yn euog yn ôl pwysau tebygolrwydd. Os na fydd aelodau'r Panel yn gallu dod i gytundeb, barn y mwyafrif o'r aelodau fydd y penderfyniad. Os ceir dyfarniad hollt, bydd Cadeirydd y Panel yn cael pleidlais ddyfarnu.

6.22.2 Gall y Panel benderfynu nad yw'r myfyriwr yn euog o gamymddwyn.

6.22.3 Gellir gosodir un neu fwy o'r cosbau canlynol:

- Gellir dyfarnu bod y myfyriwr yn euog, ond ni fydd cosb yn cael ei gosod;
- Rhybudd ffurfiol ar lafar;
- Rhybudd ysgrifenedig;
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol i fyfyriwr sydd eisoes wedi cael rhybudd, neu lle mae'r Panel o'r farn bod y camymddwyn yn haeddu rhybudd ysgrifenedig terfynol, a hysbysiad o'r camau disgyblu i'w cymryd os bydd y myfyriwr yn camymddwyn ymhellach;
- Y myfyriwr yn gorfod ymddiheuro yn bersonol (ym mhresenoldeb hwylusydd) neu'n ysgrifenedig;
- y myfyriwr yn gorfod llunio traethawd myfyriol i'w gyflwyno i Gadeirydd y Panel o fewn cyfnod penodol;
- y myfyriwr yn gorfod cymryd rhan mewn dosbarthiadau ymwybyddiaeth a darparu tystiolaeth o bresenoldeb
- Nifer penodol o oriau o wasanaeth yn y gymuned i'r Brifysgol.
- iawndal hyd at y gost uniongyrchol a achoswyd gan y camymddwyn, ond ddim y tu hwnt iddi, neu lefel a bennir gan y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd, pa bynnag un sydd isaf[5];
- Atafaelu a chadw eitemau am gyfnod penodol, ar yr amod bod y gosb yn rhesymol ac yn gymesur;
- Dirwy hyd at lefel a bennir gan y Bwrdd Academaidd o bryd i'w gilydd[6];
- Gwahardd rhag defnyddio gwasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol, neu rhag defnyddio cyfleusterau penodol;
- Gwahardd o'r Brifysgol am gyfnod penodol, hyd at uchafswm o ddeuddeg mis;
- Diarddel o'r Brifysgol. Mae diarddel o'r Brifysgol yn golygu bod y myfyriwr yn gorfod datgofrestru'n barhaol o'r Brifysgol ac yn colli pob hawl a braint a roddir i aelod o'r Brifysgol.

[5] £500
[6] £500

Os penderfynir diarddel myfyriwr o'r Brifysgol, y Panel fydd yn penderfynu a fydd yn argymell i'r Bwrdd Asesu ai peidio y dyali'r myfyriwr dderbyn unrhyw ddyfarniad terfynol neu ddyfarniad ymadael mae wedi ennill credydau priodol amdano. Nid oes gan y Panel awdurdod i argymell y dylid gwrthod credyd academaidd neu ei dynnu yn ôl.

Gall y Panel yn argymell atal myfyriwr o lety preswyl sy'n eiddo i'r Brifysgol, neu'n cael ei reoli ganddi. Cymerir y cam hwn dim ond gan ystyried y broses gyfreithiol briodol sy'n gysylltiedig â'r contract llety gyda'r myfyriwr.[7]

6.22.4 Wrth bennu'r gosb, bydd yn rhaid i'r Panel ystyried canlyniad unrhyw achos gan Awdurdod Statudol Allanol, ac a fyddai'n briodol ai peidio i'r Brifysgol osod cosb ychwanegol.

6.22.5 Dan amgylchiadau eithriadol, gellir gohirio penderfyniad ynghylch camau disgyblu nes bod gwybodaeth neu gyngor pellach ar gael.

Camau i'w Cymryd ar ôl y Dyfarniad

6.23 Bydd pob parti yn cael eu hysbysu am y penderfyniad a'r camau disgyblu a gymerir. Os yw'r myfyriwr yn derbyn benthyciad myfyrwyr neu fwrsariaeth, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr neu'r corff sy'n dyfarnu'r fwrsariaeth yn cael eu hysbysu os yw'r gosb a osodir yn cynnwys gwaharddiad am gyfnod penodol neu ddiarddeliad.

6.24 Cadarnheir y penderfyniad yn ysgrifenedig i'r myfyriwr **cyn pen pum diwrnod gwaith**. Os gohirir penderfyniad ynghylch cosb, caiff ei gadarnhau yn ysgrifenedig **cyn pen 15 diwrnod gwaith pellach**.

6.25 Llunnir adroddiad ar yr achos, ac fe'i cedwir ar gofnod. Dylai'r adroddiad gynnwys yr honiad o gamymddwyn, ac, os dyna yw'r sefyllfa, datganiad yn nodi nad yw'r myfyriwr wedi cael ei ddyfarnu'n euog o'r camymddwyn. Os canfyddir bod myfyriwr yn euog, dylai'r datganiad gynnwys crynodeb byr o'r dystiolaeth a dderbyniwyd, y seiliau ar gyfer y canlyniad, y gosb a osodwyd, a'r ffactorau a ystyriwyd wrth bennu'r gosb. Os argymhellir y dylid gwrthod dyfarniad terfynol neu ddyfarniad ymadael, rhaid rhoi gwybod i Gadeirydd y bwrdd asesu perthnasol am hyn gan ddefnyddio'r ffurflen briodol.

6.26 Os yw'r honiad o gamymddwyn yn cael ei brofi, efallai yr hysbysir y corff proffesiynol a statudol perthnasol a/neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ganlyniad y gwrandawiad disgyblu. Lle ceir disgresiwn, bydd hwn yn benderfyniad ar y cyd rhwng y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a Deon y Gyfadran mae'r myfyriwr yn astudio ynddi neu, yn ei absenoldeb, aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor.

Mae'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006) yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol i wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan mae'r Brifysgol wedi tynnu myfyriwr o weithgaredd a reoleiddir oherwydd bod y myfyriwr wedi achosi niwed, neu'n dangos ei fod mewn perygl o achosi niwed i blant neu oedolion bregus.

Dylid gwneud atgyfeiriad pan mae myfyriwr wedi:

1. Cael rhybudd, neu wedi cael euogfarn ar gyfer trosedd berthnasol; neu

2. Ynghlwm ag ymddygiad perthnasol o ran plant a/neu oedolion bregus (h.y. mewn gweithred, neu ddiffyg gweithredu (esgeulustra) sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn bregus, neu wedi ei roi mewn perygl o niwed); neu

[7] Mae paragraff 40.1 yn y Telerau ac Amodau Preswylio yn berthnasol.

3. Bodloni'r Prawf Niwed mewn perthynas â phlant a/neu oedolion bregus (h.y. nid oes ymddygiad perthnasol wedi digwydd, ond mae'r risg o niwed i blentyn neu oedolyn bregus yn bodoli).

(Cyfeiriwch at Bolisi Atgyfeirio i'r DBS; Myfyrwyr)

6.27 Os na fydd yr honiad o gamymddwyn yn cael ei brofi, bydd y Brifysgol yn ystyried ysgwyddo costau rhesymol y myfyriwr.

## Y BROSES AR GYFER APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD Y GWRANDAWIAD DISGYBLU

### 7. Apelio yn erbyn penderfyniad Gwrandawiad Disgyblu

7.1 Dylai myfyriwr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad gan Banel Gwrandawiad Disgyblu gyflwyno datganiad apêl yn ysgrifenedig, **cyn pen 10 diwrnod gwaith** o gael hysbysiad o benderfyniad Panel y Gwrandawiad Disgyblu.

7.2 Dylai'r datganiad ysgrifenedig amlinellu'r holl faterion y mae am i'r Brifysgol eu hystyried i gefnogi'r apêl, y sail dros apelio, a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

7.3 Gellir gwneud apêl ar y seiliau canlynol:

- Mae tystiolaeth newydd, berthnasol ar gael, na chafodd ei dwyn i sylw'r Panel am reswm da, ac mae'r myfyriwr yn credu bod y dystiolaeth honno'n berthnasol i'r materion dan sylw;
- Roedd anghysondeb o bwys o fewn achos Panel y Gwrandawiad Disgyblu;
- Roedd y penderfyniad a gyrhaeddwyd yn afresymol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael;
- Roedd y gosb yn anghymesur dan yr amgylchiadau;
- Mewn perthynas ag apêl yn erbyn y gosb a osodwyd, y mae amgylchiadau esgusodol yn bodoli, na chafodd eu dwyn i sylw'r Panel am reswm da;

7.4 Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn trosglwyddo'r Datganiad Apêl i aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor nad oedd ynghlwm â'r achos yn flaenorol, a fydd yn ystyried y Datganiad Apêl ac yn pennu a oes achos prima facie. Os bydd yr aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor yn credu bod achos prima facie yn bodoli, bydd yr achos yn cael gwrandawiad gan Banel Apêl, oni bai y bernir ei fod yn briodol ail-alw Panel y Gwrandawiad Disgyblu i adolygu ei benderfyniad. Ystyrir yr opsiwn hwn yn briodol yn arbennig os bydd tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg nad oedd ar gael yng nghyfarfod gwreiddiol Panel y Gwrandawiad Disgyblu. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid gwahodd y myfyriwr a'r Swyddog Ymchwilio i fod yn bresennol, yn ogystal ag unrhyw dystion newydd a enwyd gan y myfyriwr neu y mae Cadeirydd y gwrandawiad Disgyblu yn credu eu bod yn berthnasol er mwyn rhoi ystyriaeth effeithiol a theg i'r apêl. Caniateir i'r myfyriwr gael cwmni cynrychiolydd o'i ddewis (mae'r amodau a fanylir ym mharagraff 10.6 a 10.7 isod yn berthnasol).

7.5 Oni bai bod yr achos yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Panel Disgyblu, gelwir ar Banel Apêl i ystyried yr apêl. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys:

- Cadeirydd sy'n aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor nad oedd ynghlwm â'r achos yn flaenorol;
- Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, neu enwebai sy'n aelod o weithrediaeth yr Undeb Myfyrwyr ac nad oedd ynghlwm â'r achos yn flaenorol;

- Aelod arall o staff academaidd neu weithredol y mae'r Cadeirydd yn ei ystyried yn addas ac nad oedd ynghlwm â'r achos yn flaenorol.

Gall y Cadeirydd ddewis penodi aelodau ychwanegol i'r Panel, hyd at gyfanswm o bum aelod, neu benodi ymgynghorwyr arbenigol i'r Panel. Os yw'r apêl yn erbyn cosb o ddiarddeliad, bydd aelod annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr yn dod yn aelod o'r Panel Apêl. Caiff un aelod o'r Panel a'r ymgynghorwyr arbenigol ddod o du allan i'r Brifysgol. Ni ddylai unrhyw aelod o'r Panel Apêl fod wedi bod ynghlwm â'r achos yn flaenorol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu ei enwebai yn bresennol er mwyn darparu arweiniad rheoleiddiol, a bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer y Panel Apêl. Ni fydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu ei enwebai yn gweithredu yn y capasiti hwn os ydynt wedi gweithredu fel Swyddog Ymchwilio.

7.6 Mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni fel cefnogaeth yn y gwrandawiad gan fyfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, swyddog sabothol o'r Undeb Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn arall sydd ei angen ar y myfyriwr i'w gefnogi gydag anghenion unigol e.e. gofalwr neu gyfieithydd. Fodd bynnag, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu mewn capasiti cyfreithiol, ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr oni bai fod y Cadeirydd yn rhoi caniatâd clir, ac oni bai fod rhybudd ymlaen llaw wedi'i roi yn nodi y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod ynghylch cynrychiolaeth corff proffesiynol neu gyfreithiol gymwys). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cwmni, mae'n rhaid iddo rannu enw'r unigolyn hwn gyda'r Ysgrifennydd cyn y gwrandawiad, a nodi a oes gan yr unigolyn hwnnw gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, amser, lleoliad a dogfennaeth briodol yn cael eu rhannu â'r unigolyn fydd yn gwmni iddo. Mae gan y myfyriwr hawl i geisio cymorth gan adrannau perthnasol Bywyd Myfyrwyr a Champws wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

Rhoddir y dewis i'r myfyriwr gyflwyno ei achos yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r iaith a ddewisir.

Gall myfyrwyr ofyn am gael cwmni mewn gwrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir mai dan rai amgylchiadau, gall y myfyriwr ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod ymchwilio neu wrandawiad panel. Dan rai amgylchiadau prin o'r fath, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig **o leiaf 5 diwrnod gwaith** cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai).

7.7 Os caniateir y cais, mae gan y Brifysgol yr hawl i gael ei chynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun ac yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r dogfennau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rheini sy'n mynychu gyda nhw. Os bydd myfyriwr yn dweud y bydd yn bresennol mewn gwrandawiad, ond ddim yn ei fynychu wedi hynny, ac nid yw'n darparu rheswm nac ymddiheuriad, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb. Os rhoddir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohiriad ai peidio.

Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais i ohirio gwrandawiad, gwneir cais am dystiolaeth liniarol, ac fe'i cyflwynir i'r Cadeirydd am gymeradwyaeth. Os ceir cymeradwyaeth gan y Cadeirydd, rhoddir caniatâd i ohirio, ond bydd hynny unwaith yn unig.

Os bydd myfyriwr yn dweud na fydd yn bresennol yn y gwrandawiad, neu os na cheir ateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb.

7.8 Bydd gan y Panel Apêl yr un disgresiwn i ystyried tystiolaeth tystion absennol â'r hyn a roddir i'r Panel Disgyblu (gweler paragraff 9.7.9).

7.9 Caiff y ddogfennaeth a gyflwynir i'r Panel Apêl gynnwys (yn ogystal â'r Datganiad Apêl ac Adroddiad Gwrandawiad y Panel Disgyblu) y ddogfennaeth a gyflwynwyd i'r Panel Disgyblu, unrhyw fanylion am ganlyniadau gwrandawiadau blaenorol dan y Weithdrefn Ddisgyblu a gafodd eu hystyried mewn perthynas â chosbau a osodwyd gan y Panel Disgyblu, ac unrhyw ddogfennaeth arall y mae'r naill barti neu'r llall yn ei hystyried yn berthnasol i'r apêl. Dylid cyflwyno unrhyw ddatganiadau tyst newydd neu ddogfennau newydd **o leiaf tri diwrnod gwaith** cyn y dyddiad a gytunwyd ar gyfer gwrandawiad yr apêl.

7.10 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon yr holl ddogfennaeth a fydd yn cael ei hystyried gan y Panel Apêl at y myfyriwr **o leiaf saith diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad.

7.11 Cynhelir yr apêl yn yr un ffordd â'r Panel Disgyblu (gweler paragraff 9.8 a'r hyn sy'n ddilynol). Fodd bynnag, bydd y myfyriwr yn agor gwrandawiad yr apêl gyda sylwadau i gefnogi'r apêl, y dylid eu cyfyngu i faterion a nodwyd yn flaenorol yn y Datganiad Apêl, a bydd ganddo/ganddi hawl i alw ar dystion y mae eu tystiolaeth yn berthnasol i sail yr apêl.

7.12 Bydd rhaid i Gadeirydd y Panel Disgyblu gwreiddiol fod ar gael i fynychu gwrandawiad yr Apêl, os bydd y Panel Apêl yn gofyn am hynny. Caniateir i'r Panel Apêl ofyn i aelodau eraill o staff fod yn bresennol, os gwelir bod hyn yn briodol.

Rhaid i'r Swyddog Ymchwilio a fynychodd y Panel Disgyblu gwreiddiol fod ar gael i fynychu'r gwrandawiad, os bydd y Panel Apêl yn gofyn am hynny.

7.13 Bydd y Panel Apêl yn ystyried y ddogfennaeth sydd ger ei fron a'r sylwadau a gyflwynir iddo. Bydd y Panel Apêl yn ymneilltuo er mwyn ystyried ei benderfyniad, ac fe gaiff geisio cyngor cyfreithiol, neu gyngor arbenigol arall, os yw'n credu bod hyn yn briodol. Os bydd y Panel Apêl yn fodlon bod y penderfyniad disgyblu a'r gosb a osodwyd gan y Panel Disgyblu o fewn y cylch o ymatebion rhesymol y gallai'r Panel Apêl fod wedi'u dewis, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau. Mewn achosion eraill, caiff y Panel Apêl ddod i benderfyniad gwahanol a allai gynnwys gollwng yr honiadau, gosod cosb arall - boed yn un llai neu'n fwy difrifol, neu, dan amgylchiadau eithriadol, caiff benderfynu trosglwyddo achos ar gyfer ail-wrandawid gan Banel Disgyblu cwbl wahanol. Os nad yw aelodau'r Panel yn gallu dod i gytundeb, barn y mwyafrif o'r aelodau fydd y penderfyniad. Os ceir dyfarniad hollt, Cadeirydd y Panel fydd yn cael y gair olaf.

Pryd bynnag sy'n bosibl, bydd y penderfyniad yn cael ei rannu â phob parti **cyn pen pum diwrnod gwaith** o wrandawiad yr apêl.

### Colegau a Sefydliadau Partner

Os yw gweithdrefn y coleg/sefydliad partner wedi cael ei gweithredu, bydd y coleg/sefydliad partner yn gyfrifol am ddarparu'r llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

## 8. Hyfforddiant, Monitro ac Adolygu

Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff sydd ynghlwm â gweithredu'r weithdrefn hon. Bydd y gwaith o fonitro'r broses yn cael ei wneud drwy gofnodi achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol nad yw'n cynnwys enwau, a fydd yn cael ei ystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol neu bwyllgor priodol o'r Bwrdd Academaidd.

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data'r achos ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau, gan gynnwys adnabod cyfleoedd am ragor o hyfforddiant.

## 9. Cyfrinachedd

9.1 Bydd unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig ag achosion yr ymdriniwyd â nhw dan y weithdrefn hon yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. Ymdrinnir ag unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd partïon yn gyfrinachol hefyd, ac yn unol â'r Ddeddf. Efallai y rhennir gwybodaeth sy'n ymwneud â'r achos gyda staff perthnasol, megis aelodau tîm rhaglen. Rhennir gwybodaeth o'r fath dim ond pan fydd hynny'n ofynnol, a bydd yn gymesur ac yn cael ei thrin â chyfrinachedd llwyr.

## 10. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA)

10.1 Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) yn cynnal cynllun annibynnol ar gyfer adolygu prosesau mewnol yn ymwneud â gweithdrefnau myfyrwyr. Mae Prifysgol Wrecsam yn aelod o'r cynllun hwn. Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad y weithdrefn hon, cewch ofyn i'r SDA adolygu eich cwyn. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn i'r SDA, beth y gall edrych arno, beth na all edrych arno, a beth y gall ei wneud i gywiro pethau sydd wedi mynd yn anghywir yma: https://www.oiahe.org.uk/students

10.2 Fel rheol, mae angen i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn gwneud cwyn i'r SDA. Bydd y Brifysgol yn anfon llythyr atoch chi, sef "Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau", pan fyddwch wedi cyrraedd diwedd ein prosesau ac nid oes camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na fydd eich apêl yn cael ei chadarnhau, bydd y Brifysgol yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i chi'n awtomatig. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau, a phryd y dylech ddisgwyl cael un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters

## GWEITHDREFN DDISGYBLU I FYFYRWYR

